
# MANIFFESTO DATA’R ARWEINYDD

MAE CYFLEOEDD **TWF ORGANIG** ORAU EICH SEFYDLIAD YN DDIBYNOL AR **DDATA**

MAE DATA YN CYNNIG POTENSIAL ANFERTHOL I GREU MANTAIS GYSTADLEUOL, SWYDDI A CHYFOETH NEWYDD. GALL HEFYD GWELLA GOFAL IECHYD, EIN CADW’N FWY DIOGEL, A **GWELLA’R CYFLWR DYNOL**.

**MAE SEFYDLIADAU’N BELL O GAEL EU GYRRU TRWY DDATA.** **MAE’R MWYAFRIF O GWMNÏOEDD:**



1. HEB WYBODAETH AM Y DATA SYDD GANDDYN NHW, NAG HYD YN OED YMWYBYDDIAETH O’R DATA PWYSICAF
2. YN CYMYSGU RHWNG “DATA” A “THECHNOLEG GWYBODAETH” NEU DDIGIDEIDDIO, SYDD YN ARWAIN AT GAMREOLAETH O’R DDAU
3. HEB STRATEGAETH NA GWELEDIGAETH DATA SY’N DIFFINIO SUT ALL DATA CYFRANNU AT EU BUSNES
4. YN DAN-AMCANGYFRIF YR YMDRECH SYDD EI HANGEN I REOLI DATA, A HEB YN OGYSTAL, Y FFRAMWAITH SEFYDLIADOL I’W RHEOLI

MAE NIFER O GWMNÏOEDD YN LLWYDDO TRWY DDEFNYDDIO DADANSODDIADAU DATA AR RADDFA FACH, LLYWODRAETHIANT DATA, SICRHAU ANSAWDD AC YMDRECHION ERAILL. ER HYN, NID YDYM YN DARGANFOD ENGHREIFFTIAU O **NEWID SYLFAENOL, PARHAOL, AR DRAWS CWMNI HEB** **ARWEINYDDIAETH YMRWYMEDIG** A CHYFRANOGIAD PAWB **AR BOB LEFEL** Y SEFYDLIAD.

… RYDYM YN YMWYBODOL PA MOR ANODD BYDD I DDATGLOI POTENSIAL DATA LEDLED Y SIART SEFYDLIAD.

## — FELLY, RYDYM YN ANNOG PAWB I ARWAIN AT NEWID —

**BYRDDAU GWEITHREDOL, UWCH CYFARWYDDWYR AC UWCH ARWEINWYR: HERIWCH EICH CYN-SYNIADAU AM DDATA.**
Gweler data fel **ffynhonnell ddiderfyn a chyfle newydd**, yn hytrach na’i ystyried fel manylion wedi’u claddu yn goluddion TG a’ch systemau cyfrifiadurol. Cydnabyddwch nad yw potensial data ond i’w ddefnyddio gan arbenigwyr fel gwyddonwyr data, ond yn hytrach i bawb, fel modd i chi **gwir gwahaniaethu eich cwmni** rhag cystadleuwyr. Gweler data fel ffordd i chi, yn bersonol, i adael etifeddiaeth barhaus. Ystyriwch yr hyn gall ei olygu i gynnig asedau data ar eich mantolenni.

Mae arweinyddiaeth yn ddyledus i’w gyfranddalwyr a’i etholwyr i ddarparu gweledigaeth data. Fel man cychwyn, mae’n werth canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn:

**1.** Cymerwch ofal o ddata, gyda ffocws penodol ar ansawdd eich data pwysicaf. **2.** Rhowch gynnig ar nifer o ffurfiau gwahanol i weithredu eich data ac ennill mantais gystadleuol. **3.** Datblygwch system rheoli sy’n fwy addas i ddeall trylwyredd data.

**I BAWB SY’N GWELD ANGEN DATA YN EU SWYDD: BYDDWCH YN BRYFOCWYR DATA I YRRU NEWID.**
Â digon o gyfleoedd, dewiswch ardal neu ddwy sydd o ddiddordeb i chi. Gall fod yn gwella ansawdd data; darganfod dull dadansoddol dyfnach; neu ddatblygu metrig newydd, cyflawni syniad sy’n meintioli gwerth ariannol data, neu ddefnyddio data i greu cysylltiadau gydag adrannau eraill.

**GWEITHWYR PROFFESIYNOL DATA**
Byddwch yn fwy rhagweithiol, cyfathrebwch gyda’ch cymheiriaid busnes i werthu’r cysyniadau, byddwch yn fentor data, a chynigwch gymorth i eraill fel bod modd iddynt lwyddo.

**DALIWCH ATI GYDA’R GWAITH**
Mae’r cyfnod yma yn hanes yn gyffrous ond beryglus: cyfnod cyffrous gan fod data yn cynnig cyfleoedd i greu mantais gystadleuol, gwella cynhyrchion a gwasanaethau sy’n bodoli eisoes (a chreu rhai newydd), ein helpu i ddeall persbectif cwsmeriaid yn well ac i leihau cost. Er hyn, cyfnod peryglus yw hi gan lafurus bydd i gyweirio’r hyn sydd wedi torri, a gall y rhai sy’n oedi’n hir darganfod eu bod dan anfantais.

**Ystyriwch y maniffesto hwn yn ddofn.**


***RHANNWCH Y MANIFFESTO. DADLEUWCH Y MANIFFESTO.***

**Gwnewch i’r maniffesto gweithio yn eich sefydliad.**

Diolchwn i Tirion Davies am gyfieithiad Cymraeg y Maniffesto hwn.

©2021 dataleaders.org

**YMUNWCH Â NI!  WWW.DATALEADERS.ORG**



### John ladley
Twitter.com/jladley

Author, *Making EIM Work for Business* and *Data Governance: How to Design, Deploy and Sustain an Effective Data Governance Program*



### Danette mcgilvray
Twitter.com/danette_mcg

Author, *Executing Data Quality Projects: Ten Steps to Quality Data and Trusted Information™*




### Kelle o'neal
Twitter.com/kellezoneal

Author, *Turning Data Into Insights series* for CIO.com



### James price
Twitter.com/rethinkinfo

Author, *Barriers to the Effective Deployment of Information Assets: An Executive Management Perspective*



### Tom redman
Twitter.com/thedatadoc1

Author, *Getting in Front of Data* and *Data Driven: Profiting from Your Most Important Business Asset*

©2021 dataleaders.org